Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Brynach

**Llanboidy**
**Hendygwyn ar Daf**
**Caerfyrddin**
**SA34 0EL**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Brynach

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bro Brynach |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 95 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 63 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 20 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 25.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 23/06/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 30/06/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 06/11/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Bro Brynach yn rhan o ffederasiwn gydag Ysgol Beca. Mae ethos cyfeillgar, cynhwysol a hapus yr ysgol yn drawiadol ac yn nodwedd gref o'i holl waith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn ymdrin â'i gilydd ac oedolion yn barchus a chwrtais. Mae diwylliant diogelu'r ysgol yn gadarn ac mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel wrth ymgymryd â'u profiadau dysgu.

O ganlyniad i gynlluniau manwl a phwrpasol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhifedd a llythrennedd. Nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau digidol y disgyblion mor ddatblygedig. Yn sgil hyn, nid yw'r disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd yn eu medrau digidol.

Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau bod y cwricwlwm yn cynnig ystod eang o brofiadau cyffrous a chyfoethog. Mae barn y disgyblion yn ganolog i'r broses cynllunio, felly mae'r rhan fwyaf yn ymgolli'n frwdfrydig yn eu profiadau dysgu. Mae staff yn darparu profiadau difyr ac ysgogol trwy'r gweithgareddau 'Gwener Gwyllt' sydd yn datblygu medrau'r disgyblion yn effeithiol. Mae'r disgyblion yn ymateb gyda chwilfrydedd a chymhelliant ac yn wirioneddol mwynhau eu dysgu. Er hynny, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddewis yn annibynnol sut y maent am fynd ati i gwblhau tasgau a chyflwyno eu gwaith. Mae staff yn meithrin perthynas weithio gynnes a chefnogol gyda'r disgyblion ac maent yn adnabod anghenion y disgyblion yn dda. Mae awyrgylch gweithgar yn yr ysgol ac mae bwrlwm cyson i'w holl weithgareddau. Ar y cyfan, mae athrawon yn defnyddio ystod o dechnegau addysgu yn sgilgar.

Mae gan y pennaeth dros dro weledigaeth glir ar gyfer y ffederasiwn sydd wedi ei rhannu'n bwrpasol â staff, rhieni a'r disgyblion. Mae'r weledigaeth yn seiliedig ar roi cyfle i bob disgybl ffynnu o fewn amgylchedd gofalgar. Mae hi'n cael ei chefnogi'n ymroddgar ac angerddol gan y staff. Er bod anghysondebau wedi bod yn arweinyddiaeth y ffederasiwn dros gyfnod estynedig, mae arweinwyr wedi llwyddo i ddatblygu dealltwriaeth addas o gryfderau'r ysgolion a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ffederasiwn ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn cefnogi arweinwyr a staff yn briodol.

## Argymhellion

A1 Parhau i ddatblygu arweinyddiaeth effeithiol ar draws y ffederasiwn

A2 Sicrhau bod cynllunio yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau digidol

A3 Cysoni trefniadau ar gyfer ymgorffori rôl y disgyblion yn eu dysgu ar draws y ffederasiwn

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â'r defnydd effeithiol o'r ardaloedd tu allan er mwyn datblygu medrau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Dros eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn mewn datblygu llawer o'r medrau o'u mannau cychwyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar yr athrawon a'r staff cymorth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parchu barnau a chyfraniadau eu cyfoedion wrth drafod eu gwaith ac yn ymateb yn barchus iddynt gan ddefnyddio ieithwedd a thôn llais priodol. Mae eu medrau siarad yn cynyddu'n gadarn yn y ddwy iaith ac maent yn cymhwyso eu medrau ar draws ystod dda o gyd-destunau gan ddefnyddio geirfa bwrpasol. Fodd bynnag, mae disgyblion yn dueddol o droi at y Saesneg wrth gynnal trafodaethau yn y dosbarth ac wrth gymdeithasu yn ystod amseroedd egwyl.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn dda. Maent yn mwynhau darllen ac yn gwerthfawrogi'r ystod eang o destunau sydd ar gael iddynt drwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ieuengaf yn datblygu medrau darllen cynnar yn llwyddiannus, gan ddod i adnabod sain a ffurf llythrennau yn gyflym. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio ystod dda o strategaethau effeithiol i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn parhau i ddatblygu eu medrau darllen yn briodol yn y ddwy iaith. Mae ychydig yn darllen gyda mynegiant da, gan dalu sylw dyledus i atalnodi ac ystyried y gwrandäwr wrth ddarllen. Mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso medrau darllen yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm yn fedrus.

Mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod ystod gynyddol o lythrennau ac yn arbrofi wrth eu cyfuno i greu geiriau syml. Erbyn Blwyddyn 4, maent yn defnyddio geirfa pwnc berthnasol yn fanwl gywir fel 'evaporation', 'condensation' a 'precipitation' wrth ysgrifennu testun i esbonio'r cylch dŵr. Erbyn brig yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu'n ysgrifenwyr fwyfwy mentrus. Er enghraifft, wrth iddynt greu posteri deniadol ar gyfer hysbysebu sioe leol, maent yn ystyried y gynulleidfa debygol yn llawn. Maent yn cymhwyso eu medrau'n hyderus ar draws meysydd y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau mathemateg a rhifedd o'u mannau cychwyn. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn trafod nodweddion siapiau syml yn hyderus ac yn eu hefelychu yn yr ardal tu allan gan

ddefnyddio ystod o ddeunyddiau naturiol. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn trafod siâp a nifer o wynebau siapiau 3D wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o'u nodweddion. Erbyn brig yr ysgol, maent yn defnyddio eu dealltwriaeth o briodweddau onglau yn fedrus i gyfrifo maint onglau mewnol ac allanol trionglau ac onglau coll o amgylch pwynt. Maent yn cymhwyso eu medrau rhif yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn gynyddol. Maent yn defnyddio ystod addas o raglenni yn fedrus ac yn cymhwyso eu medrau yn llwyddiannus ar gyfer cyflawni dibenion penodol. Er enghraifft, erbyn cyrraedd brig yr ysgol, mae disgyblion yn defnyddio medru codio i greu gêm sy'n efelychu nodweddion gêm arcêd draddodiadol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau positif at weithgareddau corfforol. Maent yn mwynhau sesiynau addysg gorfforol ac yn ymdrechu'n egnïol yn ystod y sesiynau hyn. Mae ganddynt barch at reolau'r gweithgareddau ac maent yn gwrando'n ofalus ar gyfarwyddiadau'r athrawes ac anogaeth eu cyd-chwaraewyr. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn datblygu eu medrau rheoli pêl ac osgoi amddiffynwyr yn llwyddiannus wrth chwarae ystod o gemau hwyliog.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda drwy'r ysgol. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn mwynhau dewis ystod o ffrwythau a'u trefnu'n ddychmygus i greu siapiau wynebau diddorol. Erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, maent yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau ac arddulliau yn fedrus i efelychu gwaith artistiaid enwog. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn creu eu dehongliadau nhw o'r olygfa y maent yn ei gweld trwy ffenestr y dosbarth.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron bob un disgybl yn hynod o gwrtais a chyfeillgar ac maent yn ofalgar iawn o'u cyfoedion. Maent yn cyfarch y staff yn hwyliog wrth gyrraedd bob bore, ac yn estyn croeso cynnes iawn i ymwelwyr. Mae bron bob un yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn teimlo'n hapus iawn o fewn yr amgylchedd cartrefol a chlyd. Mae'r disgyblion a'r rhieni yn gwerthfawrogi'r gofal mae'r staff yn ei ddarparu ac maent yn hyderus bod yr ysgol yn mynd i'r afael â datrys unrhyw bryderon a phroblemau yn gyflym. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gyson dda ymhob agwedd o waith yr ysgol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn mwynhau ac yn ymroi i'w tasgau gyda chyffro a brwdfrydedd, yn enwedig yn ystod gwersi ymarferol a chreadigol fel 'Gwener Gwyllt'. Mae'r sesiynau hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu eu medrau cydweithio, ymchwilio a meddwl. Mae llawer yn dangos dyfalbarhad canmoladwy wrth wynebu anawsterau ac yn cefnogi a chynorthwyo ei gilydd yn naturiol. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad eu medrau dysgu annibynnol ynghyd â'u gwytnwch.

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau yn yr ysgol ac maent yn eu diwallu gydag ymroddiad ac egni canmoladwy. Mae'r cyngor ysgol, er enghraifft, yn weithgar wrth godi arian i brynu offer chwaraeon newydd sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a ffitrwydd disgyblion. Yn ogystal, mae'r cyngor eco yn annog eu cyfoedion i ailgylchu ac arbed ynni a dŵr sydd, yn ei dro, yn meithrin agweddau cadarnhaol at gynaliadwyedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi cyfleoedd rheolaidd i leisio eu barnau am yr hyn y maent am ei

ddysgu; er enghraifft, trwy rannu syniadau yn y 'Llwybr Lleisiau', maent yn dylanwadu ar eu gwaith thematig. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob tro'n cael cyfleoedd i wneud penderfyniadau am sut y maent am gyflwyno eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn llwyddiannus i adborth llafar ac ysgrifenedig gan staff. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o beth maent wedi ei wneud yn dda a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cefnogi eu cymdeithas a'i phobl. Maent yn trefnu gweithgareddau buddiol sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu hymwybyddiaeth o'u milltir sgwâr. Er enghraifft, mae perchennog siop leol yn dod i'r ysgol i rannu ei brofiadau o weithioyn y siop a'r cyswllt â hanes lleol. Mae gan lawer o ddisgyblion ymdeimlad o ddyletswydd i helpu eraill, yn lleol ac yn genedlaethol, er enghraifft wrth iddynt gynllunio a chynnal bore coffi er budd elusen MacMillan.

Mae bron bob disgybl yn datblygu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd bod yn ddinesydd moesegol a dyngarol. Er enghraifft, bu i'r ysgol groesawu disgyblion newydd i'r ysgol oedd yn ffoaduriaid o'r Wcráin a'u cefnogi wrth iddynt ymgartrefu yn yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o faterion yn ymwneud â hawliau dynol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth briodol o sut i aros yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd. Mae ymweliadau cyson gan yr heddwas cymunedol ac ymgyrchoedd gan y 'Dewiniaid Digidol' yn atgyfnerthu'r ddealltwriaeth ac yn hybu gwyliadwriaeth barhaus ymysg y disgyblion ynghylch yr agwedd hon.

Mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd gwneud dewisiadau da o ran bwyta ac yfed yn iach a'r effaith y mae'n ei chael ar eu hiechyd. Maent yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn gweithgareddau corfforol ac yn cael mwynhad amlwg wrth gymryd rhan. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau cynrychioli'r ysgol mewn cystadlaethau chwaraeon amrywiol. Maent hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gânt i ymuno â'u cyfoedion ar draws y ffederasiwn er mwyn cymryd rhan mewn sesiynau chwaraeon hwyliog.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan y staff berthynas ofalgar a chynnes â'r holl ddisgyblion. Maent yn eu trin gyda charedigrwydd a pharch sy'n creu amgylchedd cynhwysol lle mae hapusrwydd, lles a chynnydd pob disgybl yn flaenoriaeth.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cytbwys, cyfoethog ac ysgogol sy'n adlewyrchu ei natur a'i chyd-destun lleol yn llwyddiannus. Mae staff yn cydweithio'n ddiflino i ddarparu amrywiaeth eang o brofiadau sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Maent yn ysbrydoli disgyblion ac yn eu hannog i wneud eu gorau, sy'n cael effaith gadarnhaol ar agweddau'r disgyblion at ddysgu.

Mae athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu sydd wedi eu cynllunio'n fedrus. Maent yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth, medrau a phrofiadau disgyblion i sicrhau dilyniant wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol. Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol iawn ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chreadigol

disgyblion, ond nid yw'r cynllunio ar gyfer medrau digidol disgyblion mor ddatblygedig.

Ar y cyfan, mae llawer o staff yn defnyddio'r ardaloedd dysgu tu fewn a thu allan yn effeithiol. Maent yn cydweithio'n agos fel tîm i feithrin agweddau cadarn o ddyfalbarhau a gwytnwch ymhob disgybl. Mae athrawon a chymorthyddion yn datblygu ac atgyfnerthu medrau'r disgyblion yn fedrus mewn cyd-destunau difyr ac amrywiol. Er enghraifft, mae staff yn darparu bwydlen o weithgareddau i'r disgyblion sy'n seiliedig ar y thema gyfredol ac yn adeiladu ar fedrau mae'r disgyblion wedi eu hymarfer eisoes. Mae disgyblion yn ymgymryd â'r gweithgareddau i gyd dros gyfnod. Mae'r ystod o weithgareddau yn rhychwantu holl feysydd y cwricwlwm ac yn hybu cynnydd cryf ym medrau a hyder disgyblion. Mae staff yn defnyddio ystod eang o adnoddau'n gelfydd i ennyn diddordeb a chwilfrydedd disgyblion yn ystod y gweithgareddau hyn. Er enghraifft, mae staff yn darparu cyfleoedd hynod ddiddorol i ddisgyblion gael creu rocedi allan o adnoddau gwahanol ac arbrofi â'r dull mwyaf effeithiol o'u lansio.

Mae athrawon yn cynnwys barnau a hoffterau disgyblion yn fedrus wrth gynllunio eu gweithgareddau. Ar ddechrau pob tymor, maent yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar gyfeiriad y themâu trwy eu hannog i ofyn cwestiynau treiddgar y maent yn dymuno cael ateb iddynt trwy'r profiadau dysgu. Mae'r cwestiynau'n cael eu hychwanegu at y 'Llwybr Lleisiau'. Yn ogystal, mae pob disgybl yn cael cyfleoedd rheolaidd i ychwanegu at y rhestr wrth i'w chwilfrydedd a'u dysgu amlygu syniadau ac ymholiadau newydd. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddewis yn annibynnol sut maent am gyflwyno eu gwaith.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'i chymuned leol ac o'i hanes lliwgar i ennyn balchder disgyblion yn eu milltir sgwâr ac i sbarduno dychymyg disgyblion. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn dysgu am ymdrechion Howell Powell i helpu'r trigolion lleol drwy sicrhau cyflenwad dŵr glan i'r pentref.

Ar y cyfan, mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu yn effeithiol. O ganlyniad, mae disgyblion wedi eu cymell i gymryd rhan yn frwd yn eu gweithgareddau ac i wneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mae staff yn fodelau rôl iaith effeithiol, ac mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu eu rhuglder yn dda. Maent yn rhannu nod y dysgu yn gyson ac yn ystyried dysgu blaenorol yn ofalus wrth gynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion mewn cyd-destunau gwahanol. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod beth sydd angen ei wneud ac yn deall pan fyddant wedi llwyddo. Mae oedolion yn holi disgyblion yn fedrus. Maent yn aml yn defnyddio technegau holi sy'n ymestyn a dyfnhau dealltwriaeth disgyblion ac yn adeiladu ar eu gallu i feddwl yn feirniadol. Mae llawer o athrawon yn datblygu'r gweithgareddau dysgu gyda chyflymder addas. Lle nad yw'r arfer hon mor effeithiol, mae disgyblion yn dueddol o golli diddordeb yn eu gwaith yn gyflym.

Mae'r holl staff yn rhoi adborth llafar cyson a gwerthfawr i ddisgyblion sy'n eu galluogi i adnabod yr hyn maent yn ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig syml ond effeithiol i ddisgyblion sy'n cynnig arweiniad clir iddynt am y camau nesaf yn eu dysgu. Mae disgyblion yn ymateb yn bositif i'r adborth, ac o ganlyniad, yn aml yn gwella safon eu gwaith yn bwrpasol. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a

gwaith eu cyfoedion. Mae disgyblion yn hyderus wrth drafod beth sydd angen iddynt ei wneud i lwyddo yn eu tasgau.

Mae staff yn defnyddio ystod o wybodaeth i dracio safonau, cynnydd a lles y disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn rhoi darlun defnyddiol iddynt o ddatblygiad pob unigolyn a'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae athrawon yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd gyda rhieni a gofalwyr am gynnydd a lles eu plant. Mae hyn yn eu cynorthwyo i ddeall sut gallant helpu eu plant gartref.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r gofal, cymorth ac arweiniad a ddarperir gan Ysgol Bro Brynach yn gryfder amlwg. Mae'r ysgol yn gymuned hapus, gyfeillgar a chynhwysol sy'n gosod bri ar gwrteisi, parch ac ymddygiad da. Mae perthynas waith annwyl a chynnes rhwng staff a disgyblion ac mae staff yn annog pob disgybl i wneud eu gorau ymhob agwedd o waith yr ysgol. Mae'r ysgol yn adnabod ei disgyblion a'u teuluoedd yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi disgyblion ymhellach gyda'u hanghenion lles a dysgu. Mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a ddarperir ar gyfer eu plant a'r cymorth a gânt fel teuluoedd.

Mae'r ysgol yn cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae hon yn nodwedd gref ar draws y ffederasiwn. Mae staff yn ymateb i anghenion disgyblion yn fedrus a gyda sensitifrwydd ac empathi. Er enghraifft, mae disgyblion yn rhannu eu teimladau wrth gyrraedd yr ysgol yn y bore trwy ddefnydd dyfais electronig. Mae staff yn ymateb yn sydyn i unrhyw anghenion sydd yn amlygu eu hunain ac yn darparu cefnogaeth yn ôl yr angen. Yn ogystal, mae'r 'Cwtsh Clyd' yn hafan ddiogel a chefnogol sy'n darparu cefnogaeth werthfawr ar gyfer disgyblion bregus. Yma, rhoddir cefnogaeth gan uwch gymhorthydd sydd wedi derbyn hyfforddiant pwrpasol i gynorthwyo disgyblion ar agweddau o'u lles emosiynol. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth dda o'u lles a'u hanghenion emosiynol a strategaethau y gallent eu defnyddio i'w hunangefnogi. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gadarn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae gan y tîm addysgu drefniadau effeithiol i fonitro ac olrhain lles a chynnydd disgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i adnabod disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn gynnar. Maent yn darparu rhaglenni cefnogi pwrpasol sy'n diwallu anghenion disgyblion unigol yn dda. Mae'r rhaglenni'n cynnwys cefnogaeth ar gyfer hybu lles emosiynol a datblygu medrau llythrennedd y disgyblion. Mae cydweithio agos rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae rhieni a disgyblion yn chwarae rôl bwysig yn y broses o adolygu cynnydd y disgyblion a gosod targedau ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r ysgol yn cydweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol yn effeithiol, er enghraifft y tîm iaith a lleferydd arbenigol, er mwyn cefnogi datblygiad medrau iaith disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau sy'n hybu iechyd corfforol a lles emosiynol bron bob un disgybl yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth pêl-droed i ddathlu bod Cymru yn chwarae yng Nghwpan y Byd a chymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon yr Urdd. Trwy weithgareddau o'r math, maent yn meithrin gwerthoedd cadarn fel chwarae'n deg, parch at gyd-chwaraewyr a'r angen i ddyfalbarhau.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd niferus i ddisgyblion ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain. Maent yn ymgymryd â'u rolau yn gydwybodol a chyda balchder. Er enghraifft, mae'r 'Dewiniaid Digidol' yn cyfathrebu'n effeithiol â'r gymdeithas rhieni ac athrawon er mwyn denu cyllid ar gyfer prynu rhaglenni digidol newydd i'r ysgol. O ganlyniad, maent yn datblygu eu medrau cydweithio a chynllunio yn bwrpasol.

Mae'r ysgol yn trefnu cyfleoedd cyfoethog i ddathlu a datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u hunaniaeth, eu treftadaeth a'u diwylliant. Mae'r ysgol yn ganolbwynt ei chymuned ac yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i gynnal gweithgareddau yn yr ardal leol. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r Afon Gronw'n effeithiol er mwyn cwblhau ymholiad gwyddonol ac yn cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi tynnu rhaff hwyliog ar y cae lleol fel rhan o baratoadau ar gyfer cynnal Sioe Llanboidy. O ganlyniad, mae disgyblion yn dod yn fwyfwy ymwybodol a gwybodus o hanes eu hardal leol ac yn ymfalchïo yn ei chyfoeth diwylliannol a thraddodiadol.

Mae cyfnodau cyd-addoli'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau moesol ac ysbrydol yn llwyddiannus. Mae'r cyfnodau hyn yn annog disgyblion i fyfyrio'n dawel ar agweddau ysbrydol a chrefyddol. Maent yn hybu'r disgyblion i ystyried gwerthoedd pwysig fel balchder, ac yn mynegi hyn wrth ganu cân yr ysgol gydag angerdd canmoladwy yn y gwasanaeth boreol.

Mae gan yr ysgol strategaethau cadarn ar gyfer hybu presenoldeb disgyblion. Mae staff yn cydweithio'n fwriadus â theuluoedd a'u cefnogi'n effeithiol ble mae presenoldeb eu plant yn bryder. Mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth gadarn o weithdrefnau a phrosesau amddiffyn plant. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mewn amser byr iawn, mae'r pennaeth dros dro wedi llwyddo i rannu ei gweledigaeth yn llwyddiannus gyda staff, disgyblion a rhieni. Mae'r weledigaeth hon yn seiliedig ar werthoedd clir a chadarn sy'n adlewyrchu'r dyhead fod bob unigolyn yn llwyddo o fewn cymuned ofalgar, gan ddathlu hunaniaeth unigryw'r ddwy ysgol yn y ffederasiwn. Caiff ei chefnogi'n dda gan y llywodraethwyr a thîm o staff ymroddgar sy'n cydweithio'n ddiwyd â'i gilydd er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus. Mae arweinwyr yn sicrhau bod diwylliant cryf o ddiogelu ar draws y ffederasiwn ac yn deall eu cyfrifoldebau ar gyfer cadw disgyblion yn ddiogel. O ganlyniad, mae ymdeimlad cartrefol a chynhaliol yn rhaeadru trwy waith yr ysgol.

Mae gan y pennaeth dros dro ddisgwyliadau uchel o'i staff, y disgyblion la hi ei hun. Mae hi'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod cyfrifoldebau wedi eu rhannu'n briodol ymysg y staff. Maent yn gyfrifol am agweddau penodol ar waith yr ysgol, er enghraifft datblygu maes cwricwlaidd neu fireinio'r gweithdrefnau asesu. Mae hyn yn cyfrannu'n fuddiol at sicrhau fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau dros amser, yn bennaf mewn llythrennedd a rhifedd.

Er bod ansefydlogrwydd wedi bod yn nhrefniadau arwain yr ysgol dros gyfnod hir, mae arweinwyr wedi llwyddo i ymsefydlu ystod o brosesau defnyddiol ar gyfer monitro agweddau o ddarpariaeth yr ysgol. Maent yn casglu ystod briodol o dystiolaeth uniongyrchol er mwyn arfarnu effaith y ddarpariaeth hon ar safonau,

cynnydd a lles y disgyblion. Er enghraifft, maent yn monitro cynlluniau'r athrawon a gwaith y disgyblion. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth addas o gryfderau'r ysgol ynghyd â'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn rhoi gweithdrefnau pwrpasol ar waith sydd yn mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella ynghyd â rhoi sylw pwrpasol i flaenoriaethau gwella cenedlaethol ehangach.

Mae gweithdrefnau addas ar gyfer rheoli perfformiad staff. Mae ganddynt dargedau datblygu buddiol sy'n cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion penodol staff. Yn ei dro, mae'r targedau'n gweddu'n bwrpasol i'r gweithgareddau dysgu proffesiynol a drefnir ar gyfer staff. Mae athrawon wedi mynychu hyfforddiant diweddar i ddatblygu eu gallu i holi a chwestiynu disgyblion yn fwy effeithiol. Mae hyn wedi cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu awyrgylch ymholgar lwyddiannus ar draws y ffederasiwn. Mae cyfleoedd effeithiol i staff arbrofi â gwahanol ddulliau o gyflwyno'r cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn mireinio eu prosesau cynllunio ar gyfer darparu profiadau ysgogol i ddisgyblion atgyfnerthu a chymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm trwy ystod o weithgareddau cyfoethog. Mae'r staff hefyd yn rhannu arfer dda yn fwriadus gydag ysgolion eraill.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith y ffederasiwn. Maent yn gwerthfawrogi manteision gweithio mewn ffederasiwn ac yn ymwybodol o'r cyfleoedd mae'r drefniadaeth yn ei chynnig tra hefyd yn awyddus i gadw hunaniaeth unigryw'r ddwy ysgol. Trwy ymgymryd ag ystod o weithgareddau monitro perthnasol, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r cryfderau ar y ddau safle ynghyd â'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae gan y corff llywodraethol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, er enghraifft trwy annog disgyblion i yfed dŵr yn rheolaidd a bwyta ffrwythau yn ddyddiol.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau a chyllid yn briodol ac yn adolygu gwariant yn addas. Maent yn cysylltu'r gwariant â blaenoriaethau gwella'r ysgol yn ddoeth ac yn gwneud defnydd bwriadus o grantiau i gyfoethogi'r ddarpariaeth i'r disgyblion. Er enghraifft, defnyddir y grant datblygu disgyblion i ddarparu rhaglenni cefnogi sy'n canolbwyntio ar wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol berthynas effeithiol â rhieni a'r gymuned ehangach. Er enghraifft, mae rhieni yn cynorthwyo â darparu sesiynau Ffrangeg hwyliog i ddisgyblion hynaf yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu eu medrau gwrando a siarad a'u hymwybyddiaeth o fanteision amlieithrwydd. Mae'r ysgol yn rhagweithiol wrth ddatblygu hyder rhieni gyda chefnogi eu plant i ddatblygu eu medrau llythrennedd adref. Er enghraifft, mae athrawon yn cynnal nosweithiau agored ar gyfer cyflwyno strategaethau a phecynnau addysgu manwl. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r teimlad eu bod yn gallu sgwrsio ag unrhyw aelod o staff er mwyn trafod lles ac addysg eu plant.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  11/01/2024